**Cyfeillion Amgueddfa Cymru**
**Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP**

**Friends of National Museum Wales**
**Cathays Park, Cardiff CF10 3NP**

**Dydd Mawrth, Chwefror 5 2019**

## TAITH o gwmpas BBC CYMRU WALES, Llandaf

Mae teithiau o gwmpas BBC Cymru Wales Llandaf yn brin iawn ac rydym wedi archebu'r tair taith sydd ar gael ddydd Mawrth, 5 Chwefror 2019. Mae pob taith wedi'i gyfyngu i dim ond 14 o bobl ac fe'i cynhelir ar yr adegau canlynol: 10.30 am, 1.00 pm a 3.00 pm a phob un yn para 1.5 awr. Mae'r daith yn cynnwys cerdded pellter pell o gwmpas yr adeilad mawr gyda chyfnodau o sefyll wrth wrando ar y tywysyddion. Mae BBC Cymru Wales yn adeilad gweithredol, felly nid oes sicrwydd pwy na pha beth fyddwch chi'n ei weld ar ddiwrnod eich ymweliad, ac mae rhai dyddiau'n fwy prysur nag eraill. Mae teithiau'n cael eu cynnal yn ystod yr amserau a ddewiswyd i ganiatáu mynediad mwyaf at ardaloedd y stiwdios pan fyddent fel arall yn cael eu defnyddio. Mae'n annhebygol y byddwch yn gweld unrhyw sioeau mewn cynhyrchiad am y rheswm hwn, ond efallai y byddwch yn gweld Crimewatch, Cymru Heddiw, BBC Radio Wales / Cymru, BBC Radio Cymru, Drama Rhyngweithiol Radio, Newyddion a'r Tywydd.

### GWYBODAETH PWYSIG YNGLŶN Â'R DAITH

**DIOGELWCH**

**Dylech gyrraedd 15 munud cyn dechreuad eich taith** er mwyn caniatáu i'r holl wiriadau diogelwch gael eu cynnal cyn iddi ddechrau. Bydd angen eich chwilio chi'n bersonol a hefyd eich bag. Peidiwch â dod ag eitemau nad ydynt yn hanfodol a dewch â cyn lleied â phosibl gyda chi. Dim ond bagiau bach, gan gynnwys bagiau llaw (o dan 40cm x 35cm x 19cm - tua maint taflen A3 o bapur) sy'n cael eu caniatáu ar y daith. Mae Eitemau Gwaharddedig yn cynnwys bagiau cefn a bagiau siopa mawr a nodwch nad oes cyfleusterau storio dros dro ar gyfer bagiau nad ydynt yn cael eu caniatáu.

**PROFI HUNANIAETH**

**Rhaid cyflwyno rhywbeth gyda'ch llun arno i brofi eich hunaniaeth (Pasbort neu Drwydded Yrru) ar gyfer y daith.**

**TREFNIADAU TEITHIO: -** Bydd rhaid i chi wneud eich trefniadau teithio eich hunan.

**Ar y trên:** Gorsaf reilffordd Danescourt yw'r agosaf i BBC Caerdydd. Gadewch yr orsaf o allanfa Ffordd Llantrisant; trowch i'r chwith wrth yr allanfa a cerddwch i lawr Llantrisant Road am tua 5 munud a bydd BBC Tŷ Darlledu BBC Cymru Wales ar eich chwith. Mae trenau'n rhedeg bob hanner awr o orsaf Ganolog Caerdydd i orsaf Danescourt.

**Ar y Bws:** mae bws Caerdydd rhif 63 yn rhedeg bob 20 munud o Westgate Street yng nghanol y dref ac yn stopio y tu allan i BBC Cymru Wales Llandaff.

**Parcio Ceir:** mae'r maes parcio'n brysur yn ystod yr wythnos waith, felly nid oes sicrwydd y bydd llefydd. Gwnewch eich trefniadau parcio eich hunan a byddwch yn ymwybodol bod yr ardal leol yn breswyl, a dyna pam y cynghorir trafnidiaeth gyhoeddus.

**BWYD A DIOD: -** Yn anffodus nid oes unrhyw gyfleusterau lluniaeth cyhoeddus ym mhrif adeilad BBC Cymru Wales.

**Cost yr ymweliad yw £12.50**. Os hoffech ymuno â'r ymweliad hwn, anfonwch siec yn daladwy i 'Cyfeillion Amgueddfa Cymru', ynghyd â'r ffurflen wedi'i llenwi i: - Dr Peter Davies, 54 Duffryn Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF23 6JL.

Ffôn: 029 2075 1473. Symudol: 07443 425201 E-bost: drpmdavies@icloud.com

**Os nad ydych wedi darparu cyfeiriad e-bost, rhowch amlen wedi'i chyfeirio â stamp yn unig os gwelwch yn dda..**

**Dyddiad cau - Archebwch erbyn dydd Gwener, 30 Tachwedd 2018**

✂.................................................................................................................................................

## Ymweliad â BBC Cymru Wales, Llandaff– Dydd Mawrth, 5 Chwefror 2019

**Enw(au):** ..............................................................................................................................

**Cyfeiriad:** ..............................................................................................................................

............................................................................. Côd **Post** ................................... **Ffôn.** ..................................................

**Symudol.** ................................................ **Ebost:** ..............................................................................................

**Cadwch** .................. **lle am y daith uchod. Amgaeaf siec am £** .................... **(yn daladwy i Gyfeillion Amgueddfa Cymru (£12.50 y person) ac amlen gyda stamp (os nad oes gennych gyfeiriad ebost)**

**DEWISWCH PA DAITH** – dangoswch isod pa amseroedd y byddech am gymryd y daith. Y mwyaf hyblyg y gallech fod, yr hawsaf fydd i ddyrannu llefydd .

| **10.30 am** | | **1.00 pm** | | **3.00 pm** | |
|---|---|---|---|---|---|

**Cadarnhaf/cadarhawn aelodaeth o Gyfeillion yr Amgueddfa** ..................................

**Rhif Elusen Gofrestrig: 701990**